| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 14 Tachwedd 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio / Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Ian Millington, Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd/Nicky Jones Uwch Swyddog Trwyddedu |
| **Teitl** | Datganiad Polisi Trwyddedu Diwygiedig Arfaethedig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Gofyn i Aelodau fabwysiadu'r Datganiad Polisi Trwyddedu diwygiedig yn ffurfiol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn rheoleiddio gwerthiant a chyflenwad alcohol, darparu adloniant wedi'i reoleiddio a gwerthiant a chyflenwad lluniaeth hwyr y nos. Yr Awdurdod Trwyddedu, sef y Cyngor, sy'n gyfrifoldeb am weinyddu a gorfodi trwyddedu'r gweithgareddau uchod, ac fe'i cyflawnir trwy'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

2.2 Mae'r sector lletygarwch yn gyfrannwr mawr i'r economi lleol, yn arbennig yr economi nos. Mae deddfwriaeth, ynghyd â'r Datganiad Polisi Trwyddedu, yn anelu i ostwng niwed a niwsans wrth sicrhau tegwch i fusnesau. O fewn yr awdurdod mae 501 eiddo wedi eu trwyddedu i gyflenwi alcohol a 172 sefydliad Lluniaeth Hwyr y Nos, 31 yn gweini lluniaeth hwyr y nos yn unig. Hefyd, mae gan yr awdurdod 1393 o ddeiliaid trwyddedau personol ar gofnod ac yn gweinyddu tua 250 o rybuddion digwyddiad dros dro yn flynyddol.

2.3 Rhan o gyfrifoldebau yr Awdurdod Lleol, wrth weithredu yn swyddogaeth Awdurdod Trwyddedu, yn unol ag Adran 5 y Ddeddf Drwyddedu, yw penderfynu a chyhoeddi Datganiad Polisi Trwyddedu.

2.4 Fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, ac yn unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o'r Ddeddf, mae'n ofyniad ar y Cyngor i ymgynghori ar, a pharatoi Datganiad o Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd.

2.5 Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn sefydlu fframwaith lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer caniatâd neu amrywiadau i amodau a thelerau presennol. Mae'r Polisi yn bwysig iawn gan ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-Bwyllgor roi sylw dyledus iddo wrth wneud penderfyniad ar gais a wrthwynebwyd.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Datganiad Polisi Trwyddedu Drafft diwygiedig yn ffurfiol (Atodiad 1).

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ar 14 Hydref 2022 cyflwynwyd y Datganiad Polisi Trwyddedu diwygiedig i'r Pwyllgor Trwyddedu. Ar ôl ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, rhwng 18 Gorffennaf 2022 a 26 Awst 2022, penderfynodd y Pwyllgor gytuno i'r Datganiad diwygiedig ac i'w argymell i'r Cyngor Sir i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

4.2 Cynhaliwyd yr adolygiad gan ystyried y newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth, canllawiau cenedlaethol ac ymarfer da, hefyd fel rhan o broses barhaus i ddarparu dull cyson i ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws y rhanbarth cynhaliwyd yr adolygiad mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

4.3 Mae'n werth nodi nad yw'r Cyngor wedi cael unrhyw her gyfreithiol i'r Datganiad Polisi presennol, ac nid yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael unrhyw sylwadau negyddol gan y Diwydiant Trwyddedu neu Broffesiwn Cyfreithiol ynglŷn â chynnwys y Polisi. Felly ni chynigiwyd newidiadau sylweddol i'r Datganiad diwygiedig, rhywbeth a gefnogir gan y Pwyllgor Trwyddedu.

4.4 Os cadarnheir y Datganiad Polisi Trwyddedu diwygiedig gan y Cyngor yna bydd yn parhau mewn grym am gyfnod pellach o bum mlynedd, yn amodol wrth gwrs ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol, a fyddai angen ymgynghoriad pellach a chymeradwyaeth gan y Cyngor.

4.5 Dylai Aelodau nodi, yn ystod y cyfnod ymgynghori, fod hysbysiad cyhoeddus wedi ei gyhoeddi mewn papur newydd yn ardal yr Awdurdod Lleol ac anfonwyd gohebiaeth at holl ddeiliaid Trwydded Eiddo.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd y Polisi hwn yn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol trwy sicrhau fod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth a cham-fanteisio gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn anelu i gefnogi adferiad economaidd trwy ddarparu cyngor a chymorth i fusnesau.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

6.1 O fewn gofynion cyllidebol sy'n bodoli.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae gan y Polisi effaith cadarnhaol yn gyffredinol gan ei fod yn ceisio arwain busnesau i ddeall disgwyliad eiddo trwyddedig a'u rheolaeth. Ni all y Polisi ddynodi arferion gweithredol oni bai eu bod yn methu â bodloni amodau a/neu rwymedigaethau trwyddedu. Os canfyddir unrhyw fethiannau mae'r polisi yn amlinellu dewisiadau gorfodi i gyflawni cydymffurfiad.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Er mwyn cydymffurfio â Gofynion Statudol, ymgynghorwyd â'r asiantaethau canlynol:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Cynllunio

- Safonau Masnach (Arolygydd Pwyso a Mesur)
- Iechyd yr Amgylchedd
- Gwasanaethau Plant
- Iechyd a Diogelwch
- Cynrychiolwyr y diwydiant trwyddedu lleol
- Cynrychiolwyr preswylwyr a busnesau lleol

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd wedi ymgynghori â:

- Holl Gynghorwyr Sir
- Cynghorau Tref a Chymuned

8.2 Yn ogystal â'r gofynion statudol ar gyfer ymgynghori, roedd bob dogfen ar gael ar borth ymgynghori Sgwrs y Sir i'r cyhoedd ac ar gael mewn copi caled yn holl Lyfrgelloedd a Siopau Un Alwad Sir Ddinbych.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Yn bresennol rhagwelir y bydd y Cyngor yn gorwario y flwyddyn ariannol hon ac yn wynebu gwir ostyngiadau sylweddol yn y gyllideb y flwyddyn ariannol nesaf. Felly croesawir fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflawni'r polisi hwn o fewn cyllidebau gwasanaeth sy'n bodoli.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Pe na bai'r Cyngor yn mabwysiadu Datganiad Polisi Trwyddedu a adolygwyd, gall bob penderfyniad fod yn agored i her a byddai'r Cyngor yn torri ei rwymedigaeth statudol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. I gydymffurfio â gofynion Adran 5 Deddf Trwyddedu 2003 i adolygu, penderfynu a chyhoeddi Datganiad Polisi Trwyddedu.